CORONATION GARDENS
For food & nature

# Geirfa

## Bioamrywiaeth
Amrywiaeth y bywyd mewn cynefin.

## Blynyddol
Planhigyn sy'n tyfu ac yn marw mewn un tymor.

## Bolltio
Pan fydd planhigyn, llysiau a salad fel rheol, yn cynhyrchu blodau a hadau yn rhy gynnar.

## Bythol
Planhigyn sy'n tyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

## Caledu
I gael planhigion ifanc i ddod yn gyfarwydd â thyfu y tu allan, yn raddol.

## Closh
Wedi'i wneud o wydr neu blastig, i orchuddio planhigion i'w gwarchod nhw yn gynnar yn y gwanwyn.

## Egino
Pan fydd hedyn yn dechrau tyfu.

## Ffrâm oer
Ffrâm o bren a phlastig neu wydr, fel tŷ gwydr bach iawn heb ei gynhesu, sy'n gwarchod planhigion pan fyddant yn cael eu rhoi y tu allan am y tro cyntaf.

## Gwiail
Mae llwyni ffrwythau fel mafon cochion a mwyar duon yn tyfu ar goesynnau hir o'r enw gwiail.

## Gwreiddiau noeth
Fel rheol, coed a llwyni a gyflenwir yn segur yn y gaeaf, heb unrhyw bridd o amgylch y gwreiddiau.

## Gwydn
Planhigyn sy'n gallu byw y tu allan heb warchodaeth.

## Hau uniongyrchol
Hau hadau yn syth y tu allan lle rydych chi eisiau iddynt dyfu.

## Hybrid/F1 hybrid
Yr epil cyntaf o ddau blanhigyn rhiant gwahanol, sydd fel arfer yn tyfu'n dda iawn ac yn gallu gwrthsefyll pla yn aml. Ond nid yw hadau'r planhigyn epil yn tyfu'n driw ac efallai na fyddant yn tyfu o gwbl.

## Lluosogi
Unrhyw weithred o dyfu planhigion, o hadau, neu doriadau, neu ddulliau eraill.

## Paratoi tatws
Rhoi tatws hadyd mewn hambwrdd i'w hannog i dyfu egin bach cyn plannu.

## Peillio
Pan fydd paill yn cael ei drosglwyddo rhwng blodau, fel arfer gan y gwynt, pryfed neu anifeiliaid.

## Potio ymlaen
Pan fydd planhigyn yn tyfu'n rhy fawr i'w gynhwysydd ac yn cael ei symud i un mwy.

## Pricio
Plannu eginblanhigion mewn potiau neu hambyrddau mwy i gael mwy o le.

## Tomwellt
Deunydd sy'n cael ei roi ar y pridd o amgylch planhigion. Yn aml, tail, compost neu naddion rhisgl neu raean; gall helpu i gadw lleithder ac atal chwyn.

## Wynebwedd
Y cyfeiriad mae eich plot yn ei wynebu. Mae wynebwedd sy'n wynebu tua'r de yn cael llawer o haul.




mycoronationgarden.org

Made possible with Heritage Fund